



## Nodyn o'r cyfarfod

<b>Enw'r Prosiect</b>	Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
<b>Cyfeirnod ffeil</b>	EN010007
<b>Statws</b>	<b>Terfynol</b>
<b>Awdur</b>	Yr Arolygiaeth Gynllunio
<b>Dyddiad</b>	17 Mai 2018
<b>Cyfarfod â</b>	<b>Horizon Nuclear Power</b>
<b>Lleoliad</b>	Temple Quay House, Bryste
<b>Attendees</b>	<b>Yr Arolygiaeth Gynllunio</b> Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith Kay Sully – Rheolwr Achos Helen Lancaster – Uwch Gyngorydd AEA a Hawliau Tir Hannah Pratt – Uwch Gyngorydd AEA a Hawliau Tir <b>Horizon Nuclear Power</b> Neil Burke (dros y ffôn) – Horizon Nuclear Power David Palmer - Horizon Nuclear Power Matthew Bowell – Horizon Nuclear Power Sian John (dros y ffôn) - Royal HaskoningDHV
<b>Meeting objectives</b>	Cyfarfod diweddarau prosiect
<b>Circulation</b>	Pawb a oedd yn bresennol

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd**

Dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn yn cael ei wneud o'r cyfarfod ac yn cael ei gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddwyd o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

### **Diweddariad ar y prosiect**

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio ar yr un pryd â chyflwyno'r ceisiadau am Drwydded Forol a Thrwydded Amgylcheddol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n disgwyl i'r cais gael ei gyflwyno o fewn y mis nesaf.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd y codwyd y ffioedd ym mis Ebrill 2018.

### **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**



## The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Mae'r Ymgeisydd o'r farn ei fod wedi defnyddio ymagwedd ragofalus tuag at sgrinio, ac felly mae sawl safle a llwybr effaith wedi cael eu symud ymlaen i Gam 2 ei Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol. Mae'r Ymgeisydd wedi datblygu mesurau lliniarol lle y bo'r angen, ac wedi dod i'r casgliad na fyddai effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr holl safleoedd Ewropeaidd o fewn parth dylanwad y prosiect.

Esboniodd yr Ymgeisydd nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno â'r casgliad na fyddai effaith niweidiol ar gyfanrwydd mewn perthynas â'r effeithiau posibl canlynol:

- Gollyngiadau draenio o Dwmpath E i Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn;
- Effeithiau tonnau/ dŵr yn mynd dros Gefn Cemlyn (rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn) o ganlyniad i newidiadau i adeiladwaith a dynameg tonnau gweithredol; ac
- Effeithiau ar fôr-wenoliaid sy'n nythu o Ardal Gwarchodaeth Arbennig Môr-wenoliaid Ynys Môn.

Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod yn credu y dylai fod modd i'r effeithiau posibl yn ymwneud â gollyngiadau draenio o Dwmpath E ac effeithiau tonnau'n mynd dros Gefn Cemlyn gael eu datrys yn rhwydd trwy gyfrwng y dogfennau a gyflwynir gyda'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai'r Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau ynglŷn â meysydd yr anghytunir arnynt yn ystod yr archwiliad, a chynghorodd yr Ymgeisydd i ystyried ei ymagwedd yn ofalus wrth symud ymlaen. Ymatebodd yr Ymgeisydd trwy ddweud ei fod yn credu ar hyn o bryd y gall y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddod i ben ar Gam 2.

Amlygodd yr Arolygiaeth y dyfarniad diweddar gan y llys Ewropeaidd, sef C-323/17 - People Over Wind, Peter Sweetman v Coillte Teoranta (2018), a benderfynodd na cheir ystyried mesurau y bwriedir iddynt osgoi neu leihau effeithiau niweidiol y cynllun neu'r prosiect ar Safle Ewropeaidd (h.y. mesurau lliniarol) yn ystod y cam sgrinio. Esboniodd yr Ymgeisydd nad oedd wedi cael digon o amser i ystyried y dyfarniad yn yr adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cyn ei gyflwyno. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd y dylai gydnabod y dyfarniad ac esbonio sut mae'n bwriadu mynd i'r afael ag ef yn y llythyr eglurhaol a gyflwynir gyda'r cais.